

2024 Rhif (Cy.)

2024 No. (W.)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

ROAD TRAFFIC, WALES

Gorchymyn Traffordd yr M4
(Cyffordd 23, Rogiet i Ffin
Cymru/Lloegr, Sir Fynwy)
(Gwaharddiadau a Chyfyngiadau
Traffig Dros Dro) 2024

The M4 Motorway (Junction 23,
Rogiet to the Wales/England
Border, Monmouthshire)
(Temporary Traffic Prohibitions
and Restrictions) Order 2024

Gwnaed 26 Mehefin 2024
Yn dod i rym 1 Gorffennaf 2024

Made 26 June 2024
Coming into force 1 July 2024

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o draffordd yr M4, wedi eu bodloni y dylid cyfyngu ar draffig a/neu ei wahardd ar ddarnau penodedig o'r draffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffordd neu gerllaw iddi.

The Welsh Ministers, as traffic authority for the relevant length of the M4 motorway, are satisfied that traffic on specified lengths of the motorway should be prohibited and/or restricted because of works proposed on or near the road.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 14(1), (4) a (7) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrrd 1984(1), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

The Welsh Ministers, therefore, in exercise of the powers conferred upon them by section 14(1), (4) and (7) of the Road Traffic Regulation Act 1984(1), make this Order.

Enwi a chychwyn

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Traffordd yr M4 (Cyffordd 23, Rogiet i Ffin Cymru/Lloegr, Sir Fynwy) (Gwaharddiadau a Chyfyngiadau Traffig Dros Dro) 2024 a daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 1 Gorffennaf 2024.

Title and commencement

1. The title of this Order is the M4 Motorway (Junction 23, Rogiet to the Wales/England Border, Monmouthshire) (Temporary Traffic Prohibitions and Restrictions) Order 2024 and this Order comes into force on 1 July 2024.

Dehongli

2. Yn y Gorchymyn hwn—
ystyr "cerbyd esempt" ("exempted vehicle") yw:

Interpretation

2. In this Order—
"exempted vehicle" ("cerbyd esempt") means:

(1) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrrd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26) ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

(1) 1984 c. 27; section 14 was substituted by the Road Traffic (Temporary Restrictions) Act 1991 (c. 26), section 1(1) and Schedule 1. By virtue of S.I. 1999/672, and section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006 (c. 32), these powers are now exercisable by the Welsh Ministers in relation to Wales.

(a) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys at y dibenion a ddisgrifir yn adran 87 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(2) neu mewn cysylltiad â'r gwaith sy'n arwain at y Gorchymyn hwn;

(b) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio at ddibenion y llynges, y fyddin neu'r llu awyr ac sy'n cael ei yrru gan berson sydd am y tro yn ddarostyngedig i orchmynion aelod o luoedd arfog y Goron, sy'n aelod o'r lluoedd arbennig—

(i) ac sydd wedi ei hyfforddi i yrru ar gyflymderau uchel ac sy'n gweithredu wrth ymateb, neu wrth ymarfer ymateb, i argyfwng diogelwch gwladol; neu

(ii) at ddiben hyfforddi person i yrru cerbydau ar gyflymderau uchel;

ystyr “cyfnod y gwaith” (“*works period*”) yw'r cyfnodau ysbeidiol sy'n dechrau am 00:01 o'r gloch ar 1 Gorffennaf 2024 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro ar gyfer pob cyfnod gwaith eu symud ymaith;

ystyr “y draffordd” (“*the motorway*”) yw traffordd yr M4 Llundain i Dde Cymru;

ystyr “lluoedd arbennig” (“*special forces*”) yw'r unedau hynny o'r lluoedd arfog y mae Cyfarwyddwr y Lluoedd Arbennig yn gyfrifol am gynnal eu galluoedd neu sydd am y tro yn ddarostyngedig i reolaeth weithredol y Cyfarwyddwr hwnnw.

Gwaharddiadau a chyfyngiadau

3. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd modur, ac eithrio cerbyd esempt, ar gerbyttfordd tua'r gorllewin na cherbyttfordd tua'r dwyrain y darnau o'r draffordd a bennir yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwn.

4. Tra bo traffig yn cael ei wahardd rhag symud ar y gerbyttfordd tua'r dwyrain gan erthygl 3 ond, yn unol ag erthygl 10, nad yw'n cael ei wahardd rhag symud ar y gerbyttfordd tua'r gorllewin, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd modur ar lôn allanol cerbyttfordd tua'r gorllewin y draffordd i unrhyw gyfeiriad ac eithrio tua'r dwyrain.

(a) any vehicle being used by the emergency services for the purposes described in section 87 of the Road Traffic Regulation Act 1984(2) or in connection with the works giving rise to this Order;

(b) any vehicle being used for naval, military or air force purposes and being driven by a person for the time being subject to the orders of a member of the armed forces of the Crown, who is a member of the special forces—

(i) in response, or for practice in responding, to a national security emergency by a person who has been trained in driving at high speeds; or

(ii) for the purpose of training a person in driving vehicles at high speeds;

“special forces” (“*lluoedd arbennig*”) means those units of the armed forces the maintenance of whose capabilities is the responsibility of the Director of Special Forces or which are for the time being subject to the operational command of that Director;

“the motorway” (“*y draffordd*”) means the M4 London to South Wales motorway;

“works period” (“*cyfnod y gwaith*”) means intermittent periods commencing at 00:01 hours on 1 July 2024 and ending when the temporary traffic signs for each period of works are removed.

Prohibitions and restrictions

3. No person may, during the works period, drive any motor vehicle, other than an exempted vehicle, on either the westbound or eastbound carriageways of the lengths of the motorway specified in Schedule 1 to this Order.

4. Whilst movement of traffic is, by article 3, prohibited in the eastbound carriageway, but pursuant to article 10, not prohibited in the westbound carriageway, no person may, during the works period, drive any motor vehicle on the offside lane of the westbound carriageway of the motorway in any direction other than eastwards.

Section 87 was amended by the Fire and Rescue Services Act 2004 (c. 21), Schedule 1, paragraph 55, the Serious Organised Crime and Police Act 2005 (c. 15), Schedule 4, paragraph 42, the Crime and Courts Act 2013 (c. 22), Schedule 8, paragraph 29(2) and the Deregulation Act 2015 (c. 20), section 50(4) and (5).

Section 87 was amended by the Fire and Rescue Services Act 2004 (c. 21), Schedule 1, paragraph 55, the Serious Organised Crime and Police Act 2005 (c. 15), Schedule 4, paragraph 42, the Crime and Courts Act 2013 (c. 22), Schedule 8, paragraph 29(2) and the Deregulation Act 2015 (c. 20), section 50(4) and (5).

5. Tra bo traffig yn cael ei wahardd rhag symud ar y gerbyttffordd tua'r gorllewin gan erthygl 3 ond, yn unol ag erthygl 10, nad yw'n cael ei wahardd rhag symud ar y gerbyttffordd tua'r dwyrain, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd modur ar lôn allanol cerbyttffordd tua'r dwyrain y draffordd i unrhyw gyfeiriad ac eithrio tua'r gorllewin.

6. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd modur, ac eithrio cerbyd esempt, ar y darnau o'r draffordd a bennir yn Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn.

7. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd modur yn gyflymach na 50 milltir yr awr ar y darnau o'r draffordd a bennir yn Atodlen 3 i'r Gorchymyn hwn.

8. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd modur yn gyflymach na 40 milltir yr awr ar y darnau o'r draffordd a bennir yn Atodlen 4 i'r Gorchymyn hwn.

Cymhwysio

9. —(1) Nid yw'r gwaharddiadau na'r cyfyngiadau yn erthyglau 3, 4, 5, 6, 7 ac 8 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y mae arwyddion traffig yn eu dangos.

(2) Nid yw unrhyw derfyn cyflymder a osodir gan y Gorchymyn hwn yn gymwys i gerbyd esempt.

Atal Dros Dro

10. Mae unrhyw ddarpariaethau statudol sy'n cyfyngu ar gyflymder cerbydau ar y darnau perthnasol o'r draffordd a bennir yn Atodlenni 3 a 4 i'r Gorchymyn hwn wedi eu hatal dros dro ar yr adegau hynny pan fo'r cyfyngiadau a bennir yn erthyglau 7 ac 8 yn weithredol.

Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn

11. Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd ar ran Ysgrifennydd y Cabinet dros Ogledd Cymru a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig

26 Mehefin 2024

Nicci Hunter
Arweinydd y Tîm Busnes
Llywodraeth Cymru

5. Whilst movement of traffic is, by article 3, prohibited in the westbound carriageway, but pursuant to article 10, not prohibited in the eastbound carriageway, no person may, during the works period, drive any motor vehicle on the offside lane of the eastbound carriageway of the motorway in any direction other than westwards.

6. No person may, during the works period, drive any motor vehicle, other than an exempted vehicle, on the lengths of the motorway specified in Schedule 2 to this Order.

7. No person may, during the works period, drive any motor vehicle at a speed exceeding 50 miles per hour on the lengths of the motorway specified in Schedule 3 to this Order.

8. No person may, during the works period, drive any motor vehicle at a speed exceeding 40 miles per hour on the lengths of the motorway specified in Schedule 4 to this Order.

Application

9. —(1) The prohibitions and restrictions in articles 3, 4, 5, 6, 7 and 8 apply only during such times and to such extent as indicated by traffic signs.

(2) No speed limit imposed by this Order applies to an exempted vehicle.

Suspensions

10. Any statutory provisions restricting the speed of vehicles on the relevant lengths of the motorway specified in Schedules 3 and 4 to this Order are suspended during such times as the restrictions specified in articles 7 and 8 are in operation.

Duration of this Order

11. The maximum duration for this Order is 18 months.

Signed on behalf of the Cabinet Secretary for North Wales and Transport, one of the Welsh Ministers.

Dated the

26 June 2024

Nicci Hunter
Business Team Leader
Welsh Government

ATODLEN 1
Gwrthlif

Y darn o'r brif gerbyttfordd tua'r dwyrain sy'n ymestyn o bwynt 1000 metr i'r dwyrain o drosbont Heol yr Orsaf hyd at ffin Cymru/Lloegr. Cyfanswm pellter o 9.5 cilomedr.

Y darn o'r brif gerbyttfordd tua'r gorllewin sy'n ymestyn o ffin Cymru/Lloegr hyd at bwynt 740 o fetrau i'r dwyrain o drosbont Heol yr Orsaf. Cyfanswm pellter o 9.5 cilomedr.

ATODLEN 2
Gwahardd Cerbydau Dros Dro

Y darn o'r brif gerbyttfordd tua'r dwyrain sy'n ymestyn o bwynt 740 o fetrau i'r dwyrain o drosbont Heol yr Orsaf am bellter o 12.1 cilomedr.

Y darn o'r brif gerbyttfordd tua'r gorllewin sy'n ymestyn o ffin Cymru/Lloegr am bellter o 17.6 cilomedr.

ATODLEN 3
Terfyn Cyflymder 50 mya Dros Dro

Y darn o'r brif gerbyttfordd tua'r dwyrain sy'n ymestyn o bwynt 1000 metr i'r dwyrain o drosbont Heol yr Orsaf am bellter o 1 cilomedr.

Y darn o'r brif gerbyttfordd tua'r gorllewin sy'n ymestyn o ganol trosbont Severn Road wrth ffin ddwyreiniol y consesiwn am bellter o 1 cilomedr.

ATODLEN 4
Terfyn Cyflymder 40 mya Dros Dro

Y darn o'r brif gerbyttfordd tua'r dwyrain sy'n ymestyn o bwynt 1000 metr i'r dwyrain o drosbont Heol yr Orsaf hyd at ffin Cymru/Lloegr. Cyfanswm pellter o 9.5 cilomedr.

Y darn o'r brif gerbyttfordd tua'r gorllewin sy'n ymestyn o ffin Cymru/Lloegr hyd at bwynt 740 o fetrau i'r dwyrain o drosbont Heol yr Orsaf. Cyfanswm pellter o 9.5 cilomedr.

SCHEDULE 1
Contraflow

The length of the main eastbound carriageway that extends from a point 1000 metres east of Station Road overbridge to the Wales/England border. A total distance of 9.5 kilometres.

The length of the main westbound carriageway that extends from the Wales/England border to a point 740 metres east of Station Road overbridge. A total distance of 9.5 kilometres.

SCHEDULE 2
Temporary Prohibition of Vehicles

The length of the main eastbound carriageway that extends from a point 740 metres east of Station Road overbridge for a distance of 12.1 kilometres.

The length of the main westbound carriageway that extends from the Wales/England border for a distance of 17.6 kilometres.

SCHEDULE 3
Temporary 50 mph Speed Limit

The length of the main eastbound carriageway that extends from a point 1000 metres east of the Station Road overbridge for a distance of 1 kilometre.

The length of the main westbound carriageway that extends from the centre of the Severn Road overbridge at the eastern concession boundary for a distance of 1 kilometre.

SCHEDULE 4
Temporary 40 mph Speed Limit

The length of the main eastbound carriageway that extends from a point 1000 metres east of Station Road overbridge to the Wales/England border. A total distance of 9.5 kilometres.

The length of the main westbound carriageway that extends from Wales/England border to a point 740 metres east of Station Road overbridge. A total distance of 9.5 kilometres.